

Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

Pleidleisiau a Thrafodion (222)

Dyddiad: Dydd Mawrth 19 Hydref 2010
Amser: 13.30

Eitem 1: Cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgorau

NDM4558 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Angela Burns (Ceidwadwyr).

NDM4559 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Paul Davies (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Brynle Williams (Ceidwadwyr).

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.

.....

13.30

Eitem 2: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 3 a 10 eu grwpio.

.....

14.21

Pwynt o drefn

Gofynnodd Peter Black i'r Llywydd gadarnhau pa dermau y dylai'r Aelodau eu defnyddio wrth enwi grwpiau gwleidyddol neu weinyddiaethau llywodraethol. Cyfeiriodd y Llywydd at ei ddyfarniad blaenorol, sef y dylai Aelodau gyfeirio at bleidiau gwleidyddol yn ôl eu teitlau cywir, sef yr enwau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. O ran gweinyddiaethau llywodraethol, dylai Aelodau ddefnyddio'r teitl y mae'r weinyddiaeth am iddynt eu defnyddio.

.....

14.23

Eitem 3: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

.....

14.45

Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Dreftadaeth: Gemau'r Gymanwlad 2010 yn Delhi

.....

15.06

Cwestiwn Brys

Rhodri Morgan (Gorllewin Caerdydd): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'r datganiad y bore yma parthed penderfyniad y Weinyddiaeth Amddiffyn i derfynu contract Metrix ar gyfer yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn yn Sain Tathan. EAQ(3)1695(ECT)

.....

15.29

Eitem 5: Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: Y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd

.....

16.10

Eitem 6: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio: Y Fframwaith Adfywio

.....

16.43

Eitem 7: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Abertawe

.....

17.23

Eitem 8: Datganiad gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb: Taith "Mae'r Gymuned yn Cyfri"

.....

17.51

Eitem 9: Cynnig i gymeradwyo Cynllun Cychod Pysgota (Darlledu Data am Weithgareddau Pysgota'n Electronig) (Cymru) 2010

NDM4557 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:
1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Cynllun Cychod Pysgota (Darlledu Data am Weithgareddau Pysgota'n Electronig) (Cymru) 2010 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Medi 2010.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.52

.....

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 20 Hydref 2010.

Ysgrifenyddiaeth y Siambr